

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn edrych am Ymddiriedolwyr Newydd

Beth yw Ymddiriedolwr?

Ymddiriedolwr ydy rhywun sy'n rhoi eu hamser
am ddim i helpu i reoli Elusen. Mae'n rôl gyfreithiol
bwysig.

Fel Ymddiriedolwr Anabledd Dysgu Cymru fe fyddwch
chi yn:

- gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud popeth rydyn
ni'n ddweud ein bod yn mynd i'w wneud
- gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio o fewn y gyfraith
- gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn ein rheolau
(Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu)
- dewis Cadeirydd, Is Gadeiryddion a Thrysorydd
- gwneud yn siŵr ein bod yn gwario ein harian yn
gywir
- ein helpu ni i benderfynu pa waith fyddwn ni yn ei
wneud yn y dyfodol
- ein helpu ni i ofalu am ein staff
- cymryd rhan yng nghyfarfodydd ein Pwyllgor Rheoli.





I fod yn ymddiriedolwrmae angen i chi:

☒ fod yn 18 oed neu drosodd



☒ cytuno gyda a chefnogi Hawliau Allweddol a Siarter Gwerthoedd Anabledd Dysgu Cymru



☒ bod yn onest a dibynadwy



☒ bod yn hapus i fod yn ymddiriedolwr am ddwy flynedd



☒ siarad mewn cyfarfodydd



☒ cael y sgiliau a'r profiad sy'n ein helpu i reoli Anabledd Dysgu Cymru



☒ dod i 4 cyfarfod y pwyllgor rheoli bob blwyddyn (yn yr wythnos). Fe fyddwn ni'n talu am eich teithio.



Fe fydd bod yn ymddiriedolwr yn golygu y byddwch yn helpu Anabledd Dysgu Cymru i:

Creu Cymru sydd yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys pob plentyn a pherson ifanc ac oedolyn ag anabledd dysgu.

I fod yn ymddiriedolwr, hoffem i chi hefyd gael rhai o'r rhain:



- eisiau gwella bywydau pobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr



- gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud i fod yn ymddiriedolwr



- gwybod am y materion sy'n effeithio ar bobl ag anabledd dysgu



- deall arian



- gallu deall a siarad Cymraeg



- deall sut mae corff yn cael ei reoli



- gwybod am gyflogi staff a gofalu amdany'n nhw.

Lleodd Gwag

Os ydych chi'n perthyn i un o'n cyrff aelodau llawn fe allwch chi wneud cais i gynrychioli un o'r lleoedd gwag yma yn ein categori cymuned o ddiddordeb:



- Hunan Eiriolaeth - 1 swydd wag



- Eiriolaeth Annibynnol/Dinesydd - 2 swydd wag



- Darparwyr Cymorth I Deuluoedd - 1 swydd wag



- Darparwyr Plant - 1 swydd wag



- Darparwyr Oedolion - 1 swydd wag



- Cysylltiadau'r DU - 1 swydd wag.



Mae gennym 4 lle gwag hefyd yn ein categori Seddi Agored i unigolion sydd â diddordeb yn ein gwaith.



Sut i wneud cais

Llanwch y ffurflen gais ymddiriedolwr a'i hanfon atom erbyn **14 Tachwedd 2016**.



Yna fe fyddwn yn gofyn i rhywun sydd yn eich adnabod i ysgrifennu geirda – llythyr lle maen nhw'n dweud wrthyn ni am y pethau rydych chi'n gallu eu gwneud.



Yna fe fyddwn yn gofyn i'n Haelodau Llawn yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar **29 Tachwedd 2016** os ydyn nhw eisiau pleidleisio i chi



Anabledd Dysgu Cymru

Rydyn ni:



- yn elusen Cymru gyfan



- yn gorff aelodaeth sy'n gweithio gyda'i aelodau a'i bartneriaid



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- ariennir gan Lywodraeth Cymru, Crofa'r Loteri Fawr, Erasmus +, Esme Fairbairn



- Rydyn ni'n cyflogi 18 o bobl sydd yn gweithio yn ein swyddfa yng Nghaerdydd.



Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â:

Joanne Moore yn Anabledd Dysgu Cymru



Ffôn:

029 2068 1160



E-bost:

joanne.moore@ldw.org.uk



Gwefan:

www.adcymru.org.uk/pwy-ydyn-ni/sut-rydyn-ni'n-cael-ein-rhedeg.aspx

www.adcymru.org.uk/pwy-ydyn-ni/ein-hymddiriedolwyr.aspx